Cofnodion cyfarfod y **CYNGOR** a gynhaliwyd ar-lein nos Fercher, 15 Ionawr 2025, am 6.00pm.

## PRESENNOL

Y Cynghorydd Miss C. L. Williams (Maer)

Y Cynghorwyr M. Blackwell, Mrs M. A. Blakeley-Walker, Mrs J. Chamberlain-Jones, Mrs E. M. Chard, Mrs J. M. Evans, A. R. James, K. R. Jones, Mrs D. L. King, Ms J. L. McAlpine, B. Mellor, W. Price, Ms R. S. Roberts, Ms V. Roberts ac A. Walker.

Mr G. J. Nickels – Clerc y Dref
Miss H. J. Windus – Dirprwy Glerc

## 104. AGOR Y CYFARFOD AC YMDDIHEURIADAU

Gwnaeth Caplan y Maer, y Tad Anthony Nnamah MSP, arwain pawb a oedd yn dymuno cymryd rhan mewn gweddi.

Cyflwynwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan y Cynghorwyr S. Feeney, Ms S. Fleming, Miss S. L. Roberts, A. J. Rutherford a D. Simmons.

## 105. DATGAN BUDDIANNAU

Gofynnodd y Maer a oedd gan aelodau unrhyw fuddiant personol a/neu fuddiant sy'n rhagfarnu yng nghyswllt unrhyw fusnes i'w drafod ar yr agenda.

Ni chafwyd unrhyw ddatganiadau.

## 106. COFNODION

Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod y Cyngor a'i bwyllgor fel a ganlyn, i'w cymeradwyo fel cofnodion cywir:

Cyfarfod y Cyngor - 18 Rhagfyr 2024 - Cofnodion rhifau 88-103

Cynigiwyd gan y Cynghorydd Miss C. L. Williams ac eiliwyd gan y Cynghorydd Mrs J. Chamberlain-Jones a ***PHENDERFYNWYD*** *eu bod yn gofnodion cywir.*

Y Pwyllgor Cynllunio - 18 Rhagfyr 2024 - Cofnodion rhifau 37-41

Cynigiwyd gan y Cynghorydd Mrs J. Chamberlain-Jones ac eiliwyd gan y Cynghorydd Ms V. Roberts a ***PHENDERFYNWYD*** *eu bod yn gofnodion cywir.*

**107.** **ADRODDIAD TALIADAU A DERBYNIADAU (ATODLEN A)**

Cyfeiriodd y Dirprwy Glerc at adroddiad Clerc y Dref (a ddosbarthwyd gyda'r agenda) yn rhoi manylion y taliadau a wnaed ac a dderbyniwyd.

| Rhif taleb | Enw'r cyflenwr | Swm | Disgrifiad y nwyddau / gwasanaethau |
|---|---|---|---|
| Amherthnasol | Tesco | 3.00 | Yswiriant ffôn symudol |
| 1938 | HSBC | 13.72 | Ffi bancio |
| Amherthnasol | Tesco | 12.99 | Ffi ffôn symudol |
| 1937 | BT | 299.70 | Costau band eang a rhentu llinell ffôn |
| 1941 | Staff Cyngor Tref y Rhyl | 8,643.71 | Cyflogau net – mis Rhagfyr 2024 |
| 1939 | Cyllid a Thollau Ei Fawrhydi | 4,119.84 | Didyniadau Talu wrth Ennill – mis Tachwedd 2024 |
| 1940 | Cyngor Sir y Fflint – Cronfa Bensiwn Clwyd | 3,946.37 | Didyniadau pensiwn – mis Tachwedd 2024 |
| 1848 | Siop Cyngor am Fudd-daliadau | 1,213.33 | Swyddog Apeliadau – taliad 9 o 12 |
| 1808 | Cyngor Sir Ddinbych | 811.00 | Ardrethi Annomestig y Swyddfeydd Dinesig, Ffordd Wellington, y Rhyl – taliad 9 o 10 |
| 1894 | Cyngor ar Bopeth Sir Ddinbych | 2,000.00 | Swyddog Effeithlonrwydd Ynni – taliad 3 o 4 |
| Amherthnasol | Tesco | 3.00 | Yswiriant ffôn symudol |
| Amherthnasol | Tesco | 12.99 | Ffi ffôn symudol |
| | **Cyfanswm y taliadau** | **£21,079.65** | |

| Categori | Disgrifiad | Swm |
|---|---|---|
| Santander | Llog ar y cyfrif hysbysiad 31 diwrnod | 268.97 |
| HSBC | Llog chwarterol ar y cyfrif Business Money Manager | 927.54 |
| HSBC | Llog ar y cyfrif adneuo 1 mis a aeddfedodd ar 23 Rhagfyr 2024 | 703.56 |
| Cyngor Sir Ddinbych | Praesept 2024/25 – rhandaliad 3 o 3 | 190,698.00 |
| | **Cyfanswm yr incwm** | **£192,598.07** |

***PENDERFYNWYD*** *derbyn a chymeradwyo'r adroddiad.*

**108.** **AWDURDODI TALIADAU/YCHWANEGIADAU I'R RHESTR CYFLENWYR CYMERADWY (ATODLEN B)**

Ymhellach i gofnod rhif 143 cyfarfod y Cyngor a gynhaliwyd ar 15 Mawrth 2017, ac yn unol â rheoliadau ariannol mabwysiedig y Cyngor, cyfeiriodd y Cadeirydd at atodlen B a gyflwynwyd gan Glerc y Dref (rhestr o'r taliadau nad ydynt yn daliadau rheolaidd i'w rhyddhau yn ystod y mis nesaf) (a ddosbarthwyd gyda'r agenda).

| Rhif taleb | Cyflenwr | Manylion y cyflenwad | Swm £ |
|---|---|---|---|

| | | | |
|---|---|---|---|
| 1954 | Home Bargains | Papur toiled | 4.99 |
| 1955 | Morrisons | Lluniaeth ysgafn ar gyfer cyfarfod y Cyngor adeg y Nadolig | 12.59 |
| 1956 | Greggs | Lluniaeth ysgafn ar gyfer cyfarfod y Cyngor adeg y Nadolig | 2.25 |
| 1957 | CiPFA | Ffioedd proffesiynol ar ran A. Williams | 391.40 |
| 1958 | GoToMyPC | Adnewyddu tanysgriifad ar ran T. Jones | 208.80 |
| 1959 | GoToMyPC | Adnewyddu tanysgrifiad ar ran H. Mead | 208.80 |
| 1960 | Sandra Williams | Ffi cyfieithu – mis Rhagfyr 2024 | 255.08 |
| 1961 | BJS Solutions | Cabinet data a silffoedd | 779.60 |
| | **Cyfanswm taliadau Atodlen B** | | **£1,863.51** |

***PENDERFYNWYD*** *cymeradwyo'r atodlen i'w thalu a'i llofnodi gan ddau gynghorydd.*

**109. CYFLWYNIAD: COFNOD O FLWYDDYN YN SWYDD Y MAER**

Atgofodd y Dirprwy Glerc yr aelodau fod yr eitem hon wedi'i gohirio o gyfarfod mis Rhagfyr gan fod y Cynghorydd Ms J. L. McAlpine ymaith bryd hynny, ac na ellid gwneud y cyflwyniad yn y cyfarfod hwn ychwaith gan ei fod yn gyfarfod yn cael ei gynnal yn gyfangwbl ar-lein.

Felly gofynnodd y Dirprwy Glerc i'r Cynghorydd McAlpine a fyddai'n dymuno derbyn y cofnod yng nghyfarfod y Cyngor ym mis Chwefror, neu ei ddanfon i'w chartref?

***PENDERFYNWYD*** *y byddai'r Cynghorydd McAlpine yn casglu'r ffeil yn union ar ôl y cyfarfod.*

**110. PENODI DIRPRWY GYNRYCHIOLYDD I GYMDEITHAS CYNGHORAU LLEOL GOGLEDD A CHANOLBARTH CYMRU**

Cyfeiriodd y Dirprwy Glerc at ymddiswyddiad y Cynghorydd B. Mellor fel y driprwy gynrychiolydd, gan fod ganddo ymrwymiadau eraill a oedd yn gwrthdaro, a gofynnodd am enwebiadau am gynrychiolydd arall, a fyddai'n weithredol tan Gyfarfod Blynyddol y Cyngor ym mis Mai yn unig.

***PENDERFYNWYD*** *penodi'r Cynghorydd Ms V. Roberts.*

**111. SESIWN HOLI AC ATEB**

Nid oedd unrhyw aelodau'r cyhoedd yn bresennol.

**112. EITHRIO'R WASG A'R CYHOEDD**

***PENDERFYNWYD*** *eithio'r Wasg a'r cyhoedd o'r cyfarfod yn ystod ystyried yr eitemau busnes a ganlyn yn unol ag Adran 1(2) Deddf Cyrff Cyhoeddus (Mynediad i Gyfarfodydd) 1960, ar sail cyfrinachedd.*

## 113. <u>COFNODION CYFRINACHOL</u>

Cyflwynwyd cofnodion y cyfarfodydd a ganlyn er gwybodaeth i'r aelodau ac i gymeradwyo'r argymhellion a gynhwyswyd ynddynt:

| | | | |
|---|---|---|---|
| Yr Is-bwyllgor Cynnal a Chadw Tiroedd | - | 24 Mehefin 2024 | - Cofnodion rhifau 1-8 |
| Yr Is-bwyllgor Cynnal a Chadw Tiroedd | - | 23 Rhagfyr 2024 | - Cofnodion rhifau 9-14 |
| Yr Is-bwyllgor Asesu Risgiau | - | 29 Gorffennaf 2024 | - Cofnodion rhifau 1-11 |
| Yr Is-bwyllgor Asesu Risgiau | - | 9 Rhagfyr 2024 | - Cofnodion rhifau 12-22 |
| Y Pwyllgor Cynllunio Strategol a Gweithredol | - | 18 Tachwedd 2024 | - Cofnodion rhifau 1-6 |

***<u>PENDERFYNWYD</u>*** *derbyn a chymeradwyo'r cofnodion.*

## 114. <u>DIWEDDU'R CYFARFOD</u>

Gan nad oedd rhagor o eitemau busnes i'w trafod cyhoeddodd y Maer ddiwedd y cyfarfod.

Maer: ……..…………………..

Dyddiad: …..……………………..